



## Croeso i'n chweched daflen newyddion!

**M**ae nifer o gartrefi a busnesau yn ardaloedd y Rhath, Pen-y-lan a Heol Casnewydd mewn perygl o ddiodef llifogydd yn sgil Nant y Rhath ac Afon Rhymni. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'u partneriaid a'r gymuned i gynllunio a chyflawni cynllun llifogydd.

Dyma'r daflen newyddion olaf ar gyfer 2014. Hoffai tîm Cynllun Llifogydd y Rhath ddymuno Cyfarchion y Tymor ichi. Edrychwn ymlaen at ein rhifyn nesaf yn y Flwyddyn Newydd.

## Cychwyn gweithio ar amddiffynfeydd rhag llifogydd Afon Rhymni, cam 1 Cynllun Llifogydd y Rhath a'r Rhymni

Ar 17<sup>eg</sup> Tachwedd dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu cam cyntaf cynllun llifogydd y Rhath. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd ein contractwr GBV yn ailwampio'r arglawdd llifogydd presennol ar Afon Rhymni, oddi ar Heol Casnewydd yn ne Caerdydd.

Bydd mur llifogydd newydd yn cael ei adeiladu gan fod yr arglawdd llifogydd presennol 150m o hyd mewn cyflwr gwael a chan nad yw bellach yn amddiffyn yr ystâd ddiwydiannol a'r cartrefi gerllaw yn ddigonol.

Mae'r arglawdd y tu ôl i Ystâd Ddiwydiannol Pont Rhymni, ac mae i'w

weld o'r rheilffordd rhwng Caerdydd a Chasnewydd.

Er y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i darfu cyn lleied ag y bo modd ar fusnesau lleol, byddem yn gwerthfawrogi cydweithrediad a chymorth parhaus y gymuned yn fawr. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau cyn y Nadolig.



Arglawdd llifogydd presennol Afon Rhymni, gyda'r rheilffordd rhwng Caerdydd a Chasnewydd yn y cefndir

## Ni'n gofyn, chi'n dweud, ni'n gwneud – parhad!

Yn rhifyn Hydref ein taflen newyddion cawsom grynodedb o'r adborth a gafwyd yn y sesiynau galw heibio a gynhaliwyd ym mis Medi a mis Hydref. Mae croeso calon ichi lawrlwytho'r crynodeb manylach oddi ar ein gwefan.

## Gallwch barhau i weld y cynigion a chyflwyno sylwadau arnynt...

CoGallwch lawrlwytho copiau o bosteri Medi a Hydref oddi ar ein gwefan. Fe sylwch ein bod wedi gwneud mân newidiadau i bedwar sleid er mwyn cynnwys brasluniau newydd a chynlluniau mwy diweddar ar gyfer Railway Gardens. Er bod y dyddiad cau wedi mynd heibio, mae croeso ichi barhau i e-bostio eich adborth atom.

Cysylltwch â ni neu cofrestrwch i gael newyddion [Roath@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Roath@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

## Cynnal a chadw sianel Nant y Rhath

Ym mis Hydref, cafodd yr holl silt a oedd wedi casglu i fyny'r afon o Bont Heol Pen-y-lan ei symud ymaith fel rhan o'n gwaith parhaus i reoli'r cwrs dŵr. Amserwyd y gwaith er mwy tarfu cyn lleied ag y bo modd ar y trigolion, ar ddefnyddwyr y parc ac ar y bywyd gwyllt.

Rydym yn adolygu'r gwaith parhaus o gynnal a chadw'r sianel mewn ardaloedd lle mae gwaddodion yn creu manau cyfyng. Rydym yn ymchwilio i wahanol gynlluniau ar gyfer gwneud siltio'n llai tebygol, a hynny trwy roi llai o gyfle i waddodion waelodi.



Cael gwared â'r silt i fyny'r afon o Bont Heol Pen-y-lan ym mis Hydref

## Beth nesaf?

Rydym wrthi'n ceisio cadarnhau'r cynllun a byddwn yn parhau i rannu'r diweddaraf gyda chi trwy gyfrwng taflenni newyddion. Rydym yn paratoi dau Gais Cynllunio i Gyngor Caerdydd, y cyntaf ar gyfer gwaith rhwng Rhodfa Colchester a Heol Ipswich ac yna, yn gynnar yn 2015, ar gyfer gwaith rhwng Heol Pen-y-lan a Rhodfa Colchester.